## PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid, 27 Mehefin, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, S. Campbell, W. Gilligan, E.J. Goodjohn, E. Goodjohn, S.J. Haines, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson, N.B. Marshallsea and H.M. Payne.

Aelodau Cyfetholedig: M. Price (Eglwys Gatholig Rufeinig), L. Barrowclough (Rhiant Lywodraethwr – Sector Cynradd), G. van der Burgt (Rhiant Lywodraethwr – Sector Uwchradd), G. Scott (Addysg Gymraeg), E. Woodfield a I. Da Silva (Cyngor Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd)

EITEM AGENDA 1. PENODI IS-GADEIRYDD –

ARGYMHELLWYD – Y Cynghorydd H.M. Payne yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ebrill, 2024 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 4. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd E. Goodjohn fuddiant personol a rhagfarnus mewn perthynas ag Eitem 6 ar yr Agenda - Crynodeb o Arolygiadau Estyn o Wasanaeth Addysg yr Awdurdod Lleol a’r Gwasanaeth Ieuenctid yn Nhymor y Gwanwyn 2024. Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd Goodjohn yn rhan o’r arolygiad o y Gwasanaeth Ieuenctid. Gadawodd y Cynghorydd Goodjohn y cyfarfod am gyfnod yr eitem.

EITEM AGENDA 5. DATBLYGU CYNLLUN CORFFORAETHOL 2025-2030, ASESIAD PERFFORMIAD PANEL A CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2024/25 (CYF) –

ARGYMHELLWYD -

(1) Cytuno ar Galendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg 2024/25 a'r dull arfaethedig o ymgysylltu ag Aelodau.

(2) Bod sylwadau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn cael eu cyfeirio at y Cabinet, gyda phwyslais arbennig ar gais y Pwyllgor i gael cynrychiolaeth Ieuenctid ar Asesiad Perfformiad y Panel.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. CRYNODEB O AROLYGIADAU ESTYN O WASANAETH ADDYSG YR AWDURDOD LLEOL A’R GWASANAETH IEUENCTID TYMOR Y GWANWYN 2024 (CDS) –

ARGYMHELLWYD – Nodi canlyniad Arolygon Estyn o Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid, a llongyfarch yr Adran ar yr adroddiad arolwg cadarnhaol.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 7. CRYNODEB O GANLYNIADAU AROLYGIAD ESTYN AR GYFER TYMOR Y GWANWYN 2024 A'R DIWEDDARAF AR YSGOLION MEWN DILYNIANT STATUDOL (CDS) –

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi cynnydd y ddwy ysgol yn y Mesurau Arbennig.

(2) Y dylid anfon llongyfarchiadau'r Pwyllgor at y ddwy ysgol a arolygwyd yn ystod tymor y Gwanwyn gan nad oedd unrhyw weithgarwch dilynol gan Estyn.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn anfon llongyfarchiadau’r Pwyllgor ymlaen at y ddwy ysgol a arolygwyd yn ystod tymor y Gwanwyn.

EITEM AGENDA 8. TRACIO ARGYMHELLION SGRIWTINI 4YDD CHWARTER 2023/24 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2024/25 (CAC) –

ARGYMHELLWYD -

(1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A i'r adroddiad.

(2) Nodi Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2024/25 sydd ynghlwm yn Atodiad B, yng nghyd-destun Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant 2024/25.

(3) Bod atodlen Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2024/25, sydd ynghlwm yn Atodiad C, yn cael ei chymeradwyo a’i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Alinio ag Adran 7.6 o Brotocolau Rolau a Chyfrifoldebau'r Cabinet a Chraffu.

(3) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.